



MA Diwinyddiaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth Arbenigwyr Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd

www.stpadarns.ac.uk/cy/MAPlantPoblIfanc

Dilyswyd gan Common Awards Prifysgol Durham



“Mae’n bur debyg mai hon yw’r arbenigedd plant, pobl ifanc a theuluoedd gorau o’imath yn y DU, llawn cystal ag unrhyw gwrs tebyg ar draws y byd.”

Adroddiad Adolygiad Cyfnodol Allanol (Comisynwyr Eglwys, CofE)

YCHYDIG AM Y CWRS

MONDAY TO WEDNESDAY INTENSIVES

Blociau Dwys Dydd Llun i Ddydd Mercher

Caiff yr arbenigedd hwn ei gyflwyno mewn tair bloc dysgu dwys (Dydd Llun Dydd Mercher) y flwyddyn dros dwy flynedd, gyda rhan fwyaf y myfyrwyr yn cyrraedd ar nos Sul cyn i'r cyfnod preswyl ddechrau. Nid oes unrhyw gost ychwanegol am gyrraedd ar y nos Sul. Caiff cyfnodau preswyl eu cynnal fel arfer yn yr Hydref, Gaeaf a Gwanwyn a digwyddiad Alumni yn yr Haf. Fe'i gynlluniwyd yn benodol i gwrdd ag anghenion unigolion sy'n gweithio gyda plant, pobl ifanc a theuluoedd. Fel rhan o'r rhaglen safonol bydd myfyrwyr yn astudio tair modiwl y flwyddyn am dwy flynedd, ac yna blwyddyn o ysgrifennu traethawd hir.



Cynhelir cyfnodau preswyl ar ein safle yng Nghaerdydd, sydd â llety pwrpasol en-suite, arlwy, ystafelloedd dysgu, ystafell gyffredin a chapel. Bydd pob cyfnod preswyl yn cynnwys 7 neu 8 darlith.

Bydd hefyd darlith siaradwr gwadd (ame siaradwyr gwadd balenorol yn cynnwys; Dr Esther Zimmerman (USA), Dr David Csinos (Canada), Dr Howard Worsley, Dr Gareth Crispin, Dr Irene Smale, Dr Carolyn Edwards ac Esgob Paul Butler ymysg eraill) a noson gymdeithasol.

CYRHAEDDIAD RHYNGWLADOL

Mae myfyrwyr presennol a blaenorol wedi mynychu o Seland Newydd, Ynys y Garn, yr Almaen, Albania, Lloegr, yr Alban a Chymru.

CYRHAEDDIAD ENWADOL

Rydym wedi cael myfyrwyr yn mynychu o enwadau Anglican, Bedyddwyr, Methodistaidd, Pentocostaidd, Byddin yr Iachawdwriaeth ac enwadau eraill.

BLAENORIAETHU PROFIAD

Ein nod yw rhoi sail ddiwinyddol i ymarferwyr i alluogi ac atgyfnerthu eu hymarfer. Rydym ni yn rhoi gwerth ar brofiad dros ddysgu academiaidd. Os nad oes gradd flaenorol gennych, ond fod gennych brofiad ym maes gweinidogaeth plant, pobl ifanc a theuluoedd, bydden yn awyddus i dderbyn cais gennych.

Y BROSES YMGEISIO

Caiff y radd Meistr hwn ei ddilysu gan Brifysgol Durham fel MA mewn Diwinyddiaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth ac mae'r cwrs yn arbenigedd o fewn y cwrs hwnna. Mae'r modiwlau wedi eu teilwra yn benodol ar gyfer gweithwyr plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae gan Brifysgol Durham enw da yn fyd-eang ac yn rhan o'r Grŵp Russell o brifysgolion. Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ydy **diwedd Gorffennaf** cysylltwch â ni i drafod y broses ymgeisio mewn da bryd cyn y dyddiad cau

YCHYDIG AM ATHROFA PADARN SANT

Athrofa Padarn Sant y sefydliad adnodd yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer addysg diwinyddol. O dan ei arwyddnod *ffurfiant mewn cymuned ar gyfer cenhadaeth* ei nod yw chwarae rhan allweddol yn galluogi a chyfarparu pobl Duw ar draws y byd i rhannu neges Duw o gariad trawsnewidiol.



Y TIM ADDYSGU



Professor Jeremy Duff, Pennaeth Athrofa Padarn Sant. Mae e'n frwd dros ffurfiant a chenhadaeth. Ei arbenigeddau yw Astudiaethau Testament Newydd a Datblygiad Arweinyddiaeth.

Dr Mark Griffiths, Cyfarwyddwr y cwrs MA a Deon Meithrin Disgyblion yn Athrofa Padarn Sant. Mae ei arbenigeddau yn cynnwys Hyfforddiant i Weinidogion Trwyddedig Newydd a Datblygiad Gweinidogaeth Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd. Yn flaenorol roedd yn Bennaeth Gweinidogaeth Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd i New Wine am ddeng mlynedd.

Dr Jordan Hillebert, yw Cyfarwyddwr Ffuriant yn Athrofa Padarn Sant. Mae ganddo ddoethuriaeth o brifysgol Sant Andrew a'i bynciau arbenigol yw athrawiaeth Gristnogol a moeseg.

Dr George Lings, Cyn Gyfarwyddwr Ymchwil y Church Army a chydawdur adroddiad 'Mission Shaped Church'. Daw â phrofiad helaeth mewn myfyrwyr diwinyddol i'w ddysgu.

Lisa Lyall, Gweinidog Plant i AOG Central ers 2002. Hi arloesodd gwaith Kids No Limits, gwaith sydd bellach yn cyrraedd cannoedd o blant bob wythnos drwy amrywiaeth o raglenni.

Lucy Moore, Pennaeth y Growing faith Foundation. Yn 2004 dechreuodd Llan Llanast sydd bellach a 3,500 o leoliadau mewn 30 gwlad.

Yvonne Morris, Awdur ac Ymgynghorydd Plant i Esgobaeth Rhydychen lle bu hi gynt yn Weinidog Plant a Phobl Ifanc am dros ddegawd.

Dr Sally Nash, Cydymaith Ymchwil Uwch Athrofa Padarn Sant. Mae ganddi flynyddoedd helaeth o brofiad mewn addysg ddiwinyddol a chyn hynny 15 mlynedd o swyddi hyfforddi i Youth for Christ, wedi cyhoeddi yn eang ym meysydd cenhadaeth a gweinidogaeth ac mae nifer o'i llyfrau yn rhan o ddarllen craidd ein rhestr ddarllen.

Rick Otto, Ymgynghorydd Plant Esgobaethol i esgobaeth Manceinion. Cyn Pennaeth Gweinidogaeth Plant a Theuluoedd i Ymddiriedolaeth New Wine. Daw â phrofiad o nifer o flynyddoedd yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd mewn nifer o gyd-destun.

Matt Summerfield, Gweinidog Uwch i Zeo Church, lle bu'n Brif Weithredwr am dros ddegawd. Yn fwy diweddar bu'n Llywydd i'r Youth and Children's Missionary Movement, Urban Saints.

Gary Smith, Cyfarwyddwr Gweinidogion Stryd Caerdydd (Cardiff Street Pastors), a ddatblygwyd gan Gary ac sy'n danfon Cristnogion wedi ei hyfforddi i weithio ar strydoedd y brif ddinas bob penwythnos. Cyn hynny roedd yn gweithio yn llawn amser fel aelod staff i'r Boys' Brigade, ac fe gynorthwyodd gyda lansio a datblygu prosiectau Boys Brigade ar draws y DU.



Rachel Turner oedd Arloesydd Rhianta dros Ffydd (Parenting for Faith Pioneer) i'r BRF ac mae wedi gweithio gydag eglwysi am dros 12 mlynedd fel gweinidog Bywyd Teuluol, Gweinidog Plant a Gweinidog pobl ifanc. Mae'n parhau i ymgynghori, siarad mewn cynadleddau a chynnal diwrnodau hyfforddiant i rieni ac arweinwyr eglwysi ar draws y DU ac Ewrop. Mae Rachel yn awdur pump o lyfrau, a chwrs Parenting for Faith.



TROSOLWG O'R MODIWLAU

I ennill gradd MA ac arbenigedd rhaid i fyfyrwyr gwblhau chwe modiwl wedi eu dysgu a thraethawd hir 15,000 o eiriau. Mae'n bosib gorffen y cwrs ar ôl blwyddyn ac ennill Tystysgrif Ôl-radd, neu ar ôl dwy flynedd i ennill Diploma Ôl-radd.

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3
Dulliau Ymchwil ar gyfer Myfyrio Diwinyddol	Prosiect Dysgu Annibynnol	Traethawd hir 15,000 gair
Diwinyddiaeth ac Ysbrydolrwydd Plant	Ymarfer Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd cyfoes	
Datblygiad gwaith yr Eglwys â Phlant, Pobl Ifanc a Theuluoedd.	Arweinyddiaeth o Safbwynt Beiblaidd a Chyfoes	

FFIOEDD A DYDDIADAU CYFNODAU PRESWYL

Gellir gweld dyddiadau'r cyfnodau preswyl ar y wefan. Mae astudio'r MA yn gymwys am fenthyciad myfyrwyr os and oes benthyciad blaenorol yn bodoli ar gyfer astudiaethau o'r un lefel.

I gael fwy o fanylion ewch

<https://www.studentfinancewales.co.uk/postgraduate-students/postgraduate-mand>
[Resaster-s-finance.aspx](https://www.studentfinancewales.co.uk/postgraduate-students/postgraduate-mand) or <https://www.gov.uk/funding-for-postgraduate-study>

MWY O WYBODAETH

Cysylltwch â Tina Franklin, Cydlynnydd
Rhaglenni Ôl-radd:

tina.franklin@stpadarns.ac.uk

neu ewch i

www.stpadarns.ac.uk/MACYF

